



Single Unified Safeguarding Review (SUSR)

Fact sheet

Currently, multiple reviews (for example, a Domestic Homicide Review and an Adult Practice Review) may be conducted on a single case. However, through the SUSR process, only **one** review will be carried out when **one or more** of the criteria of the following reviews is met:

Adult Practice Review;

Child Practice Review;

Domestic Homicide Review;

Mental Health Homicide Review; and

Offensive Weapons Homicide Review.

SUSR will replace all of the above in Wales whether it is a single review or a multiple review

All SUSRs will be retained in the Wales Safeguarding Repository. This will help to facilitate pan-Wales training and local, regional and national learning.

The SUSR process will replace current review systems in Wales by amalgamating them all into one review.

What will change as a result of implementation of the SUSR process?

The SUSR process will be supported by the SUSR Co-ordination Hub. This will be a national body which will help to facilitate the end-to-end process and support Regional Safeguarding Boards with the SUSR process.

Families and victims will only need to be a part of one review process. This will help to reduce re-traumatisation.

The SUSR Ministerial Board for Wales will provide political and strategic oversight of the SUSR process. The Board will also act as a platform for escalating any regional issues which are identified that require a national or UK response. This will ensure that the Welsh Government has sight of recommendations which effect Welsh communities.

Adolygiad Diogelu Unedig Unigol (ADUU)

Taflen ffeithiau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ar hyn o bryd, gellir cynnal adolygiadau lluosog (er enghraifft, Adolygiad Dynladdiad Domestig ac Adolygiad Ymarfer Oedolion) ar gyfer un achos. Fodd bynnag, drwy'r broses ADUU, dim ond **un** adolygiad fydd yn cael ei gynnal pan fodlonir **un neu fwy** o feini prawf yr adolygiadau canlynol:

Adolygiad Ymarfer Oedolion;

Adolygiad Ymarfer Plant;

Adolygiad Dynladdiad Domestig;

Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl; ac

Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol.

Bydd ADUU yn disodli'r uchod yng Nghymru waeth pa un ai a yw'n adolygiad unigol neu'n adolygiad lluosog.

Cedwir pob ADUU yn Ystorfa Ddiogelu Cymru. Bydd hyn yn helpu i hwyluso hyfforddiant Cymru gyfan a dysgu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Bydd y broses ADUU yn disodli'r systemau adolygu presennol yng Nghymru drwy eu cyfuno'n un adolygiad.

Beth fydd yn newid o ganlyniad i weithredu'r broses ADUU?

Bydd y Ganolfan Gydlynu ADUU yn cefnogi'r broses ADUU. Corff cenedlaethol fydd hwn a fydd yn helpu i hwyluso'r broses O'r Dechrau i'r Diwedd ac yn cefnogi Byrddau Diogelu Rhanbarthol â'r broses ADUU.

Bydd ond angen i deuluoedd a dioddefwyr fod yn rhan o un broses adolygu. Bydd hyn yn helpu i leihau ail-drawmateiddio.

Bydd y Bwrdd Gweinidogol ADUU dros Gymru'n darparu goruchwyliaeth strategol a gwleidyddol o'r broses ADUU. Bydd y Bwrdd hefyd yn gweithredu fel llwyfan ar gyfer dwysáu unrhyw faterion rhanbarthol a nodir sydd angen ymateb cenedlaethol neu ar draws y DU. Bydd hyn yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gweld argymhellion sy'n effeithio ar gymunedau Cymru.